Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru Love Ceredigion

**Canllawiau Gwobr ‘Caru’ch Cymuned’ Ceredigion 2025**

Mae’r gystadleuaeth Gwobr ‘Caru Cymuned’ Ceredigion yn rhoi cyfle i’ch cymuned i gael cydnabyddiaeth ac i ddathlu ysbryd cymunedol a chefnogol. Mae’n gyfle i rannu'r holl bethau gwych sydd wedi bod yn digwydd yn eich milltir sgwâr ac i ddathlu beth sy’n arbennig am fyw yng Ngheredigion.

**Pwy all gystadlu – beth yw’r categorïau?**
Mae **tri chategori** yng nghystadleuaeth 2025.

| | |
|---|---|
| Pentref bach | Pentrefi sydd â llai na 5 o gyfleusterau |
| Pentref | Pentrefi unigol, ardal benodol o fewn ardal Cymuned neu Gyngor Tref sydd â 5 neu fwy o gyfleusterau. |
| Tref | Trefi Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth, Cei Newydd, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron yn unig. h.y. trefi sydd â chynllun tref |

**Cam 1:** Cyflwyno Ffurflen Datgan Diddordeb erbyn: **23:59 Dydd Llun, Gorffennaf 7fed 2025**

**Cam 2:** Cyflwyno Ffurflen Gais Lawn, ynghyd â thystiolaeth gefnogol erbyn **Medi 8fed 2025**

**Cynlluniau Cynefin trefi Ceredigion:**

https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/cynllunio-rheoli-adeiladu/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/creu-lleoedd/cynlluniau-cynefin/

**Beth yw cyfleuster?**
Mae cyfleuster yn unrhyw beth sydd ar gael at ddefnydd y gymuned, neu sydd yn cael ei ofalu amdano gan neu ar gyfer, y gymuned.

Yng nghyd-destun y gystadleuaeth yma, ac i bwrpas gwahaniaethu rhwng pentrefi ar gyfer y categorïau ‘ pentref’ a ‘phentref bach’, ystyrir cyfleuster yn adeilad cymunedol megis neuadd, addoldy, ysgol, siop, tafarn, toiledau cyhoeddus ac ardaloedd gwyrdd cyhoeddus megis ardal chwaraeon neu barc plant, gardd gymunedol, rhandiroedd neu debyg.

Wrth gyflwyno’ch cais llawn, rhestrwch hefyd y strwythurau a nodweddion y dymunwch fod y beirniaid fod yn ymwybodol ohonynt megis cofebion, paneli gwybodaeth a dehongli, meinciau, darpariaeth dŵr yfed neu le i barcio beic. Cofiwch gynnwys y ‘pethau bychain’ hefyd fel biniau, potiau blodau neu ‘westy pryfed’.

**Pwy all gyflwyno'r cais ar ran y gymuned?**
Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno gan gorff cydnabyddedig, megis:

- Cyngor Tref
- Cyngor Cymuned
- Corff, Cymdeithas, Clwb neu grŵp gwirfoddol sy'n berthnasol i'r gymuned y cyflwynir y cais amdano. Rhaid bod gan y grŵp gyfansoddiad ffurfiol.

Nid yw'n orfodol mai'r Cyngor Tref neu Gymuned sy'n cyflwyno'r cais.
Ni dderbynnir mwy nag un cais sy'n cynrychioli'r un gymuned unigol.

Croesawir ceisiadau ar y cyd wedi eu cydlynu ar ran y gymuned gan gyngor cymuned/ tref neu grŵp neu gorff gwirfoddol (megis pwyllgor neuadd bentref neu Glwb ieuenctid).

Os oes mwy nag un pentref o fewn dalgylch Cyngor Tref neu Gymuned, gellir cyflwyno cais ar gyfer rheiny yn unigol, cyn belled a bod y cais yn cael ei gyflwyno gan gorff cydnabyddedig. Ni dderbynnir ceisiadau gan unigolion na grwpiau sydd heb gyfansoddiad ffurfiol

**Gwobrau**
Mae'r gystadleuaeth Gwobr 'Caru Cymuned' Ceredigion yn rhoi cyfle i'ch cymuned, i gael cydnabyddiaeth ac i ddathlu ysbryd cymunedol a chefnogol. Mae'n gyfle i rannu'r holl bethau gwych sydd wedi bod yn digwydd yn eich milltir sgwâr ac i ddathlu beth sy'n arbennig am fyw yng Ngheredigion. 2025 yw'r flwyddyn gyntaf y cynhelir cystadleuaeth 'Caru'ch Cymuned'. Mae'r gystadleuaeth wedi ei chynllunio i roi cydnabyddiaeth i ymdrechion ar bob lefel i ofalu am a chynnal cymunedau ar draws Ceredigion.

Anogir cymunedau, o ba bynnag faint, i gyflwyno cais. Yn y flwyddyn gyntaf yma, y bwriad yw rhoi cyfle i dynnu sylw at ac i ddathlu'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud mewn cymunedau ar draws Ceredigion.

Cyflwynir Tystysgrif Efydd am bob cais sy'n cyrraedd y meini prawf ac yn derbyn sgôr o 6 neu uwch gan y beirniaid am y dystiolaeth a gyflwynir.

Cyflwynir Gwobr Efydd i'r cais sy'n sgorio uchaf ym mhob un o'r tri Chategori ( Pentref Bach, Pentref, Tref) Gwobrau'r dyfodol

Bydd modd i gymunedau wneud cais am wobr arian ymhen dwy flynedd. Bydd hyn yn rhoi cyfle ac amser i gymunedau adeiladu ar y gwaith maent eisoes yn ei wneud ac i gynllunio ymlaen a dechrau gweithio ar syniadau newydd.

Bydd manylion am Wobr Aur yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Beth gaiff ei asesu gan y beirniaid?**
Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o gymuned fywiog a gofalgar.
Ystyrir tair elfen, sef:

- Gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau cymunedol
- Cyfathrebu effeithiol
- Gofal a chyflwr cyfleusterau a nodweddion

Mae'r asesiad yn seiliedig, yn y man cyntaf, ar y Ffurflen Gais a'r dystiolaeth a gyflwynir i gefnogi'r cais. Pa agwedd mae'r gymuned yn ymfalchïo ynddi fwyaf? Beth yw'r llwyddiannau?

Dilynir hyn gan ymweliad safle fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar adeiladau cymunedol, eu hamgylchedd a mannau cyhoeddus eraill. Pwysleisir nad cystadleuaeth “bocs siocled” mohoni! Nid maint a nifer y nodweddion neu gyfleusterau sy’n bwysig, ond safon ac ymdrech cymunedol i ofalu amdanynt. Mae'r beirniadu'n seiliedig ar ba mor dda y mae pentref yn cael ei gyflwyno, nid am ei fanteision daearyddol na pha mor brydferth ydyw.

**Cyfleusterau a nodweddion** sy’n cyfrannu at naws am le a balchder bro **sydd i’w hystyried ar gyfer y gystadleuaeth** (nodwch eu lleoliad ar fap)

- Adeiladau cymunedol (neuaddau, addoldai ayyb) a’u hamgylchedd
- Tafarn, siop, garej ayyb
- Arwyddion pentref, hysbysfyrddau ac arwyddion gwybodaeth
- Nodweddion fel cofeb ryfel, placiau coffa a’u tebyg
- Adeiladwaith eraill (ee safle bws, cysgodfannau, blychau ffôn (gan gynnwys rhai sydd bellach wedi eu haddasu ar gyfer defnydd newydd) celf gyhoeddus ayyb
- Seddi, meinciau, byrddau picnic a’u tebyg
- Ardaloedd awyr agored cyhoeddus (caeau chwarae, parciau, mynwentydd *ayyb)*
- Garddio cymunedol a/ neu ardaloedd ar gyfer natur
- Arall (rhowch fanylion)

**Map**
Rhaid atodi neu gynnwys map o’r ardal i’w beirniadu gyda’r ffurflen gais.
Rhaid nodi ar y map y nodweddion/cyfleusterau sydd i’w beirniadu.

Gall y map fod wedi ei ddylunio â llaw neu yn un digidol (ee biniau ar Google map)

Mae map manwl o Geredigion gyfan ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion – gallwch ei chwyddo i lefel o fanylder addas.https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/hawliau-tramwy-cyhoeddus/y-map-diffiniol-cofrestrau-hawliau-tramwy-cyhoeddus/map-hawliau-tramwy/

https://www.google.com/maps/about/mymaps/

**Meini Prawf Beirniadu a Sgorio**

| | *1* | *2* | *3* | *4* |
|---|---|---|---|---|
| *Meini prawf sgorio* | *Peth tystiolaeth* | *Da* | *Arbennig* | *Rhagorol* |

| **Adran 1:** Mentrau cymunedol a chefnogaeth i ddigwyddiadau a gweithgareddau | |
|---|---|
| Cyfleoedd i gymryd rhan a chyfrannu / cyfranogi o fentrau, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol | Ffurflen Gais a thystiolaeth megis lluniau a/neu adroddiadau o’r gweithgareddau; |
| Mentrau a chyfleusterau i feithrin iechyd a lles | Ffurflen gais a thystiolaeth i gefnogi, megis lluniau neu adroddiadau o’r gweithgareddau; |

| | |
|---|---|
| Ymdrechion i gefnogi natur a chynaladwyedd | Ffurflen gais a thystiolaeth i gefnogi, megis lluniau neu adroddiadau o'r gweithgareddau;<br>Ymweliad; |
| **Adran 2: Cyfathrebu** | |
| Tystiolaeth o gyfathrebu da ac effeithiol | Ffurflen gais; Lluniau neu gopïau o'r deunyddiau gwybodaeth/ hyrwyddo |
| Argraff o gymuned ofalgar a chroesawgar | Ffurflen gais<br>Ymweliad |
| **Adran 3: Gofal a chyflwr cyfleusterau a nodweddion y gymuned** | |
| Cyflwr a thaclusrwydd cyffredinol a thystiolaeth o ofal am adeiladau cyhoeddus ac ardaloedd gwyrdd/ hamddena a'r amgylchedd o'u cwmpas | Ffurflen gais;<br>Ymweliad |

**Gair i gall!**
**Casglwch dystiolaeth gydol y flwyddyn.**
e.e. os yw blodau o gwmpas y gymuned yn un o'r cryfderau yr hoffech i'r beirniaid ystyried, sicrhewch fod ganddo'ch lluniau ohonynt ar eu gorau i gyflwyno fel tystiolaeth i'r beirniaid, gan mai yn yr hydref bydd y gystadleuaeth yn cael ei beirniadu. Neu os ydych yn cynnal digwyddiad ar ôl dyddiad cau'r gystadleuaeth am eleni, cadwch y dystiolaeth ar gyfer cystadleuaeth y flwyddyn nesaf!
Yn yr un modd, cofiwch dynnu lluniau o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ee ymgyrch casglu sbwriel, prydau cymunedol, amrywiol weithgareddau clybiau lleol ayyb

Gellir dethol y cyfleusterau a'r nodweddion i'r beirniaid ffocysu arnynt.
**Rhaid nodi'r rhain ar y ffurflen gais a dangos eu lleoliad ar y map**

**Cyflwyno eich cais - Rhestr wirio**

Ffurflen Gais **wedi ei harwyddo** ☐

Cadarnhad caniatâd ddefnyddio lluniau o blant ☐

Map ☐

Tystiolaeth lluniau ☐

Cylchlythyrau erthyglau ayyb (os yn berthnasol) ☐

Linc(iau) i wefan, cyfryngau cymdeithasol (os yn berthnasol) ☐

Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau eich bod wedi cynnwys popeth angenrheidiol a bod y cais wedi ei arwyddo gan berson cymwys

**Cwestiynau ac eglurhad**

Os oes unrhyw gwestiynau ynghylch a'r ffurflen gais, sut i gyflwyno tystiolaeth, yr amserlen eu rheolau ymgeisio, cysylltwch â: ce.cynnalycardi@ceredigion.gov.uk